**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-06-02(p.5)**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 27 Chwefror 2002
**Lleoliad:** Neuadd y Dref, Y Rhyl
**Teitl:** Rheoliadau Drafft – Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2002 *a* Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2002

**Diben**

1. Gyda'r papur hwn ceisiaf gymeradwyaeth y Pwyllgor i argymhellion ar gyfer gwneud Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2002 *a* Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2002.

**Crynodeb/Argymhellion**

2. Mae'r materion a gynhwysir yn y gwelliannau yn ymwneud â gofyniad yr awdurdodau lleol i godi tâl ar breswylwyr am lety gofal preswyl, p'un a chaiff ei ddarparu'n uniongyrchol neu ei drefnu gyda chartref annibynnol.

3. O dan adrannau 22 a 26 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gael cyfraniad priodol gan breswylwyr tuag at gost eu llety preswyl. Yn ôl adrannau 22(5) a 26(3) o'r Ddeddf mae'n rhaid i'r cyngor ddefnyddio rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth asesu gallu preswylydd i dalu. Dyma Reoliadau Deddf Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 a gaiff eu diwygio bob blwyddyn i weithredu'r cynnydd yn y terfyn cyfalaf a'r Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) 2001 a gaiff eu diddymu bob blwyddyn pan wneir y rheoliadau newydd yn cyflwyno'r swm wythnosol diwygiedig. (Trosglwyddwyd y pwerau y gellir eu harfer gan Weinidogion i'r Cynulliad Cenedlaethol).

4. Yr argymhelliad yw:

- codi'r cyfraddau terfynau cyfalaf yn y profion modd o £11,500 (is) a £18,500 (uwch) i £11,750 (is) a £19,000 (uwch); a
- codi'r Lwfans Treuliau Personol o £16.05 i £16,80.

5. Mae codi'r cyfraddau terfynau cyfalaf yn cyflawni ymrwymiad i gadw'r terfynau o dan arolwg er mwyn sicrhau eu bod yn codi'n fras yn unol â chwyddiant. Mae'r cynnydd yn y Lwfans Treuliau Personol yn unol â chodiadau i'r cyfraddau budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a bydd yn sicrhau y bydd y swm sy'n cael ei dderbyn gan unigolion at ddefnydd personol yn codi yn unol â chyfartaledd enillion. Er mai targed yr Adran Gwaith a Phensiynau yw cynyddu lefelau budd-daliadau yn unol â chwyddiant mae rhai budd-daliadau wedi bod yn codi'n ddiweddar yn unol â chyfartaledd

enillion.

**Amseru**

6. Cyfeiriwyd y rheoliadau i'r Pwyllgor gan y Dirprwy Lywydd ar argymhelliad y Pwyllgor Busnes a ystyriodd y rheoliadau pan gyfarfu ar 12 Chwefror. Argymhellir cyflwyno adroddiad drafft gan y Pwyllgor Pwnc i'r Gweinidog erbyn 1 Mawrth ac y rhoddir ystyriaeth i'r mater gan y Pwyllgor Deddfau pan fydd yn cyfarfod ar 12 Mawrth. Os na lwyddir i gyflawni'r amserlen hon mae'n annhebygol y bydd y rheoliadau yn barod ar gyfer eu gweithredu ar 8 Ebrill fel yr argymhellwyd.

**Cefndir**

<u>Terfynau Cyfalaf</u>

7. O dan Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992, ni all cynghorau gyfrannu'n ariannol at gostau gofal preswylwyr sy'n berchen ar asedau sy'n fwy na'r terfyn cyfalaf uwch o £18,500, gan gynnwys gwerth eu cartref. Rhwng y terfyn cyfalaf uwch hwn a therfyn cyfalaf is o £11,500, mae'n ofynnol i gynghorau ragdybio y gall preswylwyr gynhyrchu incwm ar gyfradd dariff o £1 am bob £250 o'r asedau cyfalaf neu ran ohono. Yna ychwanegir yr incwm tariff hwn at yr incwm arall y mae'n rhaid i awdurdodau eu hystyried wrth asesu i ba raddau y gofynnir i breswylwyr gyfrannu at gostau gofal. Islaw'r terfyn cyfalaf is, ni all cynghorau ofyn i breswylwyr gyfrannu at gostau gofal o'u hadnoddau cyfalaf.

8. Y llynedd adferodd rheoliadau'r Cynulliad y terfynau cyfalaf i'w gwerth term real 1996 ac ymrwymais i'w cadw o dan arolwg. O fis Ebrill eleni rwyf yn argymell fod y terfyn cyfalaf is yn codi o £11,500 i £11,750, a'r terfyn cyfalaf uwch o £18,500 i £19,000. Mae hyn yn unol â chwyddiant, gan ganiatáu ar gyfer talgrynnu i'r £250 agosaf. (Mae'n bwysig talgrynnu'r terfynau i £250 gan mai dyma'r sail ar gyfer cyfrifo incwm tariff sy'n rhagdybio £1 am bob £250 o asedau).

<u>Lwfans Treuliau Personol</u>

9. Mae preswylwyr cartrefi gofal, a gynhelir gan gynghorau, yn cyfrannu'r rhan fwyaf o'u hincwm i dalu am eu gofal. Asesir cyfraniadau preswylwyr yn unol â Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992. O dan y rheoliadau hyn caniateir i breswylwyr gadw swm at ddefnydd personol, er enghraifft, i brynu dillad, anrhegion bach, trin gwallt a deunydd ysgrifennu, ac ni ellir defnyddio'r swm hwn i dalu am ofal y contractiwyd y cyngor amdano. Gelwir y swm hwn yn Lwfans Treuliau Personol. Mae swm tebyg yn bodoli yn y rheoliadau Cymhorthdal Incwm, lle mae'r cyfraddau'n cynyddu bob blwyddyn i adlewyrchu cynnydd chwyddiant. Mae'r lwfans personol hefyd yn cyfrannu i elfennau penodedig o fudd-daliadau cymhorthdal incwm. Er nad yw'r Lwfans Treuliau Personol yn fudd-dâl yr Adran Gwaith a Phensiynau fel y cyfryw, mae'n swm cydnabyddedig a gafodd ei dalu ar yr un gyfradd â budd-dâl yr Adran Gwaith a Phensiynau a ystyrir yn rhesymol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r Adran yn cyflwyno rheoliadau sy'n codi'r lwfans personol at ddibenion budd-daliadau o £16.05 i

£16.80 yn 2002. Mae hyn yn unol â chyfartaledd enillion.

10. Mae rhagor o fanylion yn y memorandwm esboniadol a'r rheoliadau drafft sydd yn atodiad A a B, ac ym mharagraffau 7-8 ceir goblygiadau ariannol y newidiadau.

**Ystyriaeth**

<u>Terfynau Cyfalaf</u>

11. Mae'r argymhelliad ar derfynau cyfalaf yn unol â'm hymrwymiad i adolygu'r terfynau cyfalaf i sicrhau eu bod yn parhau yn fras yn unol â chwyddiant. Os na fyddai cynnydd yna byddai'n arwain at feirniadaeth y gellid ei chyfiawnhau, sef na fyddai pobl yng Nghymru yn cael y budd-dâl a fwriadwyd wrth gyflawni hyn a hefyd y byddai eu sefyllfa ariannol yn waeth na phobl mewn amgylchiadau tebyg yn Lloegr.

<u>Lwfans Treuliau Personol</u>

12. Yn yr un modd, os na fyddai cynnydd yn y Lwfans Treuliau Personol yn unol â'r hyn a argymhellwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau byddai'n gadael y bobl sydd mewn gofal preswyl a gynhelir gan awdurdodau lleol mewn sefyllfa ariannol waeth nag yn unrhyw le arall; byddai'n creu anghysondeb rhwng y bobl hynny sy'n cael cymorth gan awdurdodau lleol a'r rheini sy'n cael budd-daliadau eraill sy'n destun prawf modd lle mae'r lwfans personol yn cynyddu.

13. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y per i godi'r Lwfans yn uwch na'r hyn a argymhellir yn y Rheoliadau. Ond oherwydd y cysylltiad â budd-daliadau dylid ymgynghori â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU. Byddai unrhyw gynnydd ar ben yr hyn a argymhellir ar hyn o bryd hefyd yn rhoi mwy o faich ariannol ar awdurdodau lleol. Byddai'n rhaid i'r Cynulliad unioni hyn o dan y weithdrefn beichiau newydd.

**Cydymffurfiaeth**

14. Trosglwyddwyd y pwerau sy'n galluogi'r offerynnau hyn i gael eu gwneud o dan y Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i'r Cynulliad a'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Gweithredu yng ngweddill Prydain Fawr**

15. Mae'r Adran Iechyd a'r Weithrediaeth yn yr Alban yn bwriadu codi'r Lwfans Treuliau Personol i £16.80 o 8 Ebrill yn unol â'r newidiadau a gyhoeddwyd eisoes gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

16. Mae'r Adran Iechyd yn bwriadu cyflwyno rheoliadau o 8 Ebrill yn codi'r terfynau cyfalaf i £11,750 a £19,000. Nid yw'r Gweinidogion yn yr Alban wedi penderfynu eto a fyddant yn codi'r terfynau cyfalaf.

**Gweithredu ar gyfer y pwyllgor pwnc**

17. Cymeradwyo’r Rheoliadau.

**Cyswllt**

18. Andrew Powell-Chandler, yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol 3.